

## **Sut gallaf i gyflwyno'r gyfres o gymwysterau lechyd, Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant?**

- Bydd angen i chi wneud cais am gymeradwyaeth i gyflwyno'r cymwysterau hyn. Er mwyn symleiddio'r broses gymeradwyo cymwysterau mae City & Guilds/CBAC wedi datblygu ffurflen ar y cyd i'w defnyddio i wneud cais am gymeradwyaeth canolfan a/neu gymhwyster. Gyda'r ffurflen hon, dim ond un cais y byddai angen i chi fel darparwr ei wneud i gynnig un neu fwy o gymwysterau'r gyfres hon. Mae'r ffurflen ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg i'w defnyddio ar gyfer cyfres cymwysterau lechyd, Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant City & Guilds/CBAC yng Nghymru (ac eithrio TGAU ac UG/Safon Uwch). Mae'n berthnasol os ydych yn un o ganolfannau City & Guilds a/neu CBAC yn barod, neu'n gwsmer newydd i'r ddau Gorff Dyfarnu.
- Amlinellir y broses gymeradwyo a thaith y cwsmer yn yr atodiadau yn y canllaw gweinyddu.
- Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau cychwynnol am y gyfres o gymwysterau i [gwybodaeth@digc.cymru](mailto:gwybodaeth@digc.cymru)
- Dylid defnyddio'r cyfeiriad [cymeradwyo@dgic.cymru](mailto:cymeradwyo@dgic.cymru) i wneud unrhyw ymholiadau am y broses gymeradwyo.

### **Sut mae gwneud cais?**

- Llenwi ffurflen gais. Bydd y ffurflen hon, ynghyd ag unrhyw ganllawiau, i'w gweld ar wefan y consortiwm.
- Bydd unrhyw geisiadau am gymwysterau TGAU/Safon Uwch yn dilyn prosesau safonol CBAC

### **Beth yw'r meini prawf cymeradwyo canolfannau a chymwysterau?**

- Mae'r ffurflen gais yn rhestru'r meini prawf cymeradwyo canolfannau. Mae hyn yn ymwneud â gallu cwsmer i fodloni gofynion o ran polisïau, adnoddau staff, systemau rheoli a gweinyddu a Sicrhau Ansawdd
- Amlinellir meini prawf penodol i gymwysterau yn llawlyfr/manyleb pob cymhwyster. Mae hyn yn ymwneud â chymhwysedd galwedigaethol staff, y cymwysterau sydd ganddyn nhw, DPP yn ogystal ag unrhyw adnoddau ffisegol sy'n benodol i bob cymhwyster.
- Bydd unrhyw benderfyniadau cymeradwyo ond yn seiliedig ar y gallu i fodloni meini prawf canolfan a chymhwyster. Bydd y ffurflen gais a'r llawlyfr(au)/manyleb(au) yn nodi'r rhain.

### **Pa bryd y byddaf yn derbyn y penderfyniad?**

- Bydd yn cymryd hyd at 30 diwrnod gwaith i chi dderbyn penderfyniad cymeradwyo ysgrifenedig ar ôl i chi gwblhau a chyflwyno eich cais. Sylwer, os nad yw'r wybodaeth ar eich cais yn gyflawn bydd yn cael ei ddychwelyd i chi a dim ond pan fydd y ffurflen yn gyflawn y bydd yn cael ei derbyn.

### **A oes angen talu ffi i wneud cais am gymeradwyaeth?**

- Na, nid oes angen talu ffi i wneud cais am gymeradwyaeth ar gyfer y gyfres hon o gymwysterau.

### **A oes unrhyw ffin ariannol neu amodau incwm i gyflwyno'r cymwysterau hyn?**

- Na, nid oes unrhyw amodau ariannol nac incwm cwsmeriaid i ofyn am gymeradwyaeth nac i barhau i fod wedi'ch cymeradwyo. Nid oes nifer lleiaf o ddysgwyr y mae'n rhaid ei warantu gan gwsmer ychwaith.

### **Pa bryd y gallaf gael fy nghymeradwyo ar gyfer y gyfres o gymwysterau lechyd, Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant?**

- Ar gyfer cymwysterau i'w cyflwyno gyntaf o fis Medi 2019, bydd y cyfnod cymeradwyo canolfannau a chymwysterau ar agor o ddydd Llun 15 Ebrill 2019
- Bydd dogfennau o ganllawiau'n ymwneud â'r drefn gymeradwyo'n cael eu llwytho i fyny i'r wefan yn ystod yr wythnos 8 Ebrill 2019
- Cynghorir cwsmeriaid, os ydyn nhw'n bwriadu dechrau cyflwyno cymhwyster o fis Medi 2019, y dylen nhw wneud cais am gymeradwyaeth canolfan a chymhwyster erbyn mis Mehefin 2019. Awgrymwyd yr amserlen hon er mwyn gwneud yn siŵr bod canolfannau'n barod erbyn dyddiadau dechrau darparu'r cymwysterau, ond nid yw'n derfyn amser ffurfiol ar gyfer ceisiadau cymeradwyo.

### **Pa bryd gallaf i ddechrau cyflwyno'r gyfres o gymwysterau lechyd, Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant?**

- Bydd yn bosibl ymrestru a chyflwyno'r cymwysterau isod yn y gyfres i ddysgwyr o fis Medi 2019
  - Lefel 2: Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd
  - Lefel 2: Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau
  - Lefel 2: Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion)
  - Lefel 3: Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion)
  - Lefel 3: Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Plant a Phobl Ifanc)
  - Lefel 2: Gofal, Chwarae, Dysgu, a Datblygiad Plant: Craidd
  - Lefel 2: Gofal, Chwarae, Dysgu, a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori
  - Lefel 2: Gofal, Chwarae, Dysgu, a Datblygiad Plant: Ymarfer
  - Lefel 3: Gofal, Chwarae, Dysgu, a Datblygiad Plant: Ymarfer

### **Yr wyf yn ganolfan City & Guilds/CBAC yn barod – pa newidiadau fydd yna i ni?**

- Bydd newid bach o ran y broses gymeradwyo i ganolfannau sydd wedi'u cymeradwyo'n barod. Mae'r ffurflen gais am gymeradwyaeth yn ddogfen newydd, i'w chwblhau'n electronig a'i chyflwyno dros e-bost.
- Bydd unrhyw gwsmer sy'n gwneud cais am gymeradwyaeth i ddarparu cymwysterau TGAU, UG neu Safon Uwch yn dilyn trefn cymeradwyo canolfannau safonol CBAC ar gyfer pob cymhwyster cyffredinol.

### **A fydd y cymwysterau'n cael eu hariannu?**

- Cymwysterau Cymru sy'n cymeradwyo'r cymwysterau newydd. Mae hyn yn golygu y byddan nhw'n gymwys i dderbyn arian cyhoeddus ar gyfer rhaglenni i ddysgwyr hyd at 19 oed.
- Bydd rhai o gymwysterau'r gyfres newydd ar fframweithiau prentisiaeth ar gyfer gofal cymdeithasol neu ofal, dysgu a datblygiad plant. Cynlluniau prentisiaeth Llywodraeth Cymru fydd yn ariannu'r rhain. Er y bydd pob un o'r cymwysterau newydd yn cael eu hariannu mewn gwahanol ffyrdd, efallai y bydd angen i ddysgwyr a chyflogwyr

ariannu eu hunain neu eu gweithwyr i gwblhau'r cymhwyster dan amgylchiadau penodol

### **Pa gefnogaeth sydd ar gael ar gyfer y canlynol**

- Cymeradwyo cwsmeriaid newydd?
  - Cyhoeddir canllawiau a dogfennau cefnogi yn ymwneud â'r broses ymgeisio a chymeradwyo ar y wefan yn ystod yr wythnos 8 Ebrill 2019
- Y Gymraeg?
  - Cyhoeddir yr holl brif ddogfennau, gan gynnwys ffurflenni cymeradwyo, dogfennau cefnogi, llawlyfrau/manylebau cymwysterau, ac asesiadau drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Hefyd bydd cefnogaeth i gwsmeriaid, cefnogaeth ansawdd a Swyddogion Sicrhau Ansawdd Allanol ar gael yn ddwyieithog.
- Gwaith gweinyddol y ganolfan?
  - Unwaith y bydd canolfan wedi cael ei chymeradwyo, bydd y corff dyfarnu â chyfrifoldeb am y cymhwyster (cymwysterau) dan sylw yn ymdrin â materion cefnogi cwsmeriaid. Mae datganiad gwasanaeth cwsmeriaid yn ymwneud â'r gyfres hon o gymwysterau i'w weld ar y wefan, ond bydd unrhyw ymholiadau'n ymwneud â phroses neu system benodol corff dyfarnu yn defnyddio'r dulliau cefnogi cwsmeriaid presennol sydd gan bob corff dyfarnu. E.e. os ydych yn ymholi ynghylch Gardd Furiog City & Guilds, byddai'r ymholiad hwn yn cael ei gyfeirio at gefnogaeth canolfannau City & Guilds.